# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(38)

**Datganiad gan y Llywydd**
Croesawodd y Llywydd Samantha Hailes o Gaerdydd, y miliynfed ymwelydd â'r Senedd.

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd y Cwestiwn Brys am 14.31

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau neu gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Peacocks yn sgîl datblygiadau diweddar. EAQ(4)0088(BET)

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

Dechreuodd yr eitem am 14.40

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif**

Dechreuodd yr eitem am 14.47

**4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu**

Dechreuodd yr eitem am 15.18

**5. Dadl ar Greu Cymunedau Mwy Diogel i bawb – Gwella ansawdd bywyd i bobl Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 15.58

**NDM4889 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r gwaith sydd wedi'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau sy'n bartner iddi i hybu'r agenda Diogelwch Cymunedol ac i greu Cymru ddiogelach i bawb.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl "iddi" a rhoi yn ei le:

ar yr agenda Diogelwch Cymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan ymgysylltu'n llawn â phartneriaid i hybu agenda gynhwysol a chreu Cymru ddiogelach i bawb.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 29 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'n benodol gyfraniad cadarnhaol cynghorau lleol i wella diogelwch cymunedol, er enghraifft drwy gyllido Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyflwyno cynlluniau gosod gatiau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 1 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

ond yn credu y byddai hyn yn gwella eto fyth petai plismona'n cael ei ddatganoli i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 41 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4889 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r gwaith sydd wedi'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau sy'n bartner iddi i hybu'r agenda Diogelwch Cymunedol ac i greu Cymru ddiogelach i bawb.

Yn nodi'n benodol gyfraniad cadarnhaol cynghorau lleol i wella diogelwch cymunedol, er enghraifft drwy gyllido Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyflwyno cynlluniau gosod gatiau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl ar Bolisi Cynllunio ar gyfer Datblygu Economaidd**

Dechreuodd yr eitem am 16.54

**NDM4890 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddiweddaru polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y system gynllunio'n hanfodol ar gyfer economi gref ac felly'n gresynu wrth yr oedi ar ran Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Gyflwyno Bil Cynllunio Cymru yn gynharach na'r hyn a nodwyd yn y Datganiad Deddfwriaethol, fel y gellir rhoi agwedd strategol ond syml ar waith mewn canllawiau ar draws yr holl sectorau polisi er mwyn gwella'r economi a lles pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 36 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei Bil Cynllunio'n gynharach nag a nodwyd yn ei datganiad deddfwriaethol, ac i ymgynghori'n eang arno, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion datblygu economaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 29 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4890 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddiweddaru polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 12 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.50

Daeth y cyfarfod i ben am 17.53

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 18 Ionawr 2012**